

CRYNODEB



Ailbrisió Parciau a Mannau Gwyrdd

Mesur eu gwerth economaidd
a lles i unigolion

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi prisiad economaidd cadarn o barciau a mannau gwyrdd yn y DU yn ogystal ag ystyried gwelliannau mewn iechyd a lles sy'n gysylltiedig â'u defnyddio yn aml. Dyma'r astudiaeth ymchwil gyntaf o barciau a mannau gwyrdd i ddefnyddio methodoleg pwysu a mesur lles, sy'n caniatáu gwell penderfyniadau polisi yn seiliedig ar dystiolaeth.

Gwyddom o nifer o astudiaethau ymchwil fod mynediad at fannau gwyrdd lleol o ansawdd yn gwella iechyd a lles corfforol a meddyliol pob rhan o'r gymuned.

Yn wir, mae Adolygiad Marmot 2010¹, yn argymhell y bydd gwella argaeledd mannau gwyrdd o ansawdd da ar draws y graddiant cymdeithasol yn helpu i leihau anghydraddoldebau iechyd. Eto i gyd, er gwaethaf y gydnabyddiaeth eang o'u gwerth, rydym yn y cyfamser wedi gweld dirywiad sylweddol yn ansawdd y parciau lleol.²

Mae darparu parciau a mannau gwyrdd sy'n hygyrch i'r cyhoedd yn fater polisi ar sawl lefel mewn llywodraeth ganolog a lleol, gweinyddiaethau cenedlaethol datganoledig ac awdurdodau lleol. Fel rheol, mae mynediad i barciau a mannau gwyrdd yn rhad ac am ddim ac nid yw'r fynedfa hon wedi'i rheoleiddio fel arfer; mannau lle gall pobl symud, cael awyr iach, chwarae a rhedeg. Fodd bynnag, yn hanesyddol, roedd hi'n anodd mesur effaith y manteision sylfaenol hyn mewn termau ariannol, elfen hanfodol o gyflwyno achos busnes cymhellol i awdurdodau lleol yn gofyn iddynt ariannu parciau a mannau gwyrdd yn barhaus a chefnogi eu bodolaeth.

Mae Fields in Trust yn elusen ledled y DU sy'n hyrwyddo parciau a mannau gwyrdd trwy eu gwarchod yn barhaus; mae dros 2,700 o leoedd wedi'u gwarchod ers i'r sefydliad gael ei ffurfio ym 1925.

Barn Fields in Trust yw mai ychydig o wasanaethau cyhoeddus sy'n cael effaith gadarnhaol mor eang ar gymunedau lleol fel parciau a mannau gwyrdd i chwarae ynddynt. Yn anffodus, mae lleoedd o'r fath yn dueddol o gael eu priso fel rhan o gyllidebau lleol yn ôl eu costau cynnal yn hytrach na'u budd go iawn i gymunedau lleol, sy'n llawer mwy na symiau o'r fath oherwydd eu manteision lluosog. Gall parciau a mannau gwyrdd sicrhau'r canlynol:

- › Cyfrannu at agenda iechyd ataliol
- › Lleihau gwariant y Trysorlys yn y dyfodol
- › Lleihau anghydraddoldebau iechyd
- › Cynyddu cydlyniant cymdeithasol a chydraddoldeb

Er mwyn hyrwyddo'r achos dros ailbriso parciau a mannau gwyrdd o ran yr hyn maent yn ei ddarparu ar draws amrywiol agendâu polisi, gan gynnwys mynd i'r afael â gordewdra, iechyd meddwl, lles ac unigrwydd, comisiynodd Fields in Trust gwmni Jump X Simetrica i gynnal dadansoddiad newydd a chasglu data sylfaenol sy'n benodol i ddefnyddwyr parciau a mannau gwyrdd yn y DU.

Cynhaliwyd yr ymchwil hwn yn unol ag arfer gorau Trysorlys EM³ ar gyfer priso nwyddau nad ydynt yn rhan o'r farchnad, gan ddefnyddio dwy fethodoleg briso: **Prisiad Atodol** (sy'n nodi Parodrwydd i Dalu unigolyn) a **Phrasiad Lles** (lles goddrychol sy'n pennu gwerthoedd ariannol cyfatebol i ymatebion arolwg boddhad bywyd); a dadansoddiad ychwanegol i fesur arbedion cost iechyd rhannol i'r Trysorlys. Rydym wedi ystyried gwerth y gwaith cynnal a chadw a bodolaeth barhaus parciau a mannau gwyrdd hygyrch i'r cyhoedd, yn ogystal â'r gwerth o ran iechyd a lles sy'n gysylltiedig â defnyddio parciau yn aml.

PRIF GASGLIADAU:



Cyfanswm y Gwerth Economaidd⁴ i unigolyn yw

£30.24 Y FLWYDDYN

(£2.52 y mis) ac mae'n cynnwys y manteision a geir o ddefnyddio parc neu fan gwyrdd lleol a manteision di-ben-draw fel cadwraeth parciau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.



Mae'r Gwerth o ran Lles sy'n gysylltiedig â defnyddio parciau lleol a mannau gwyrdd yn aml yn

£34.2 BILIWN Y FLWYDDYN

i boblogaeth oedolion y DU drwyddi draw.



Amcangyfrifir bod parciau a mannau gwyrdd yn arbed tua

£111 MILIWN Y FLWYDDYN

i'r GIG ar sail gostyngiad yn nifer yr ymweliadau â meddygon teulu yn unig, heb gynnwys unrhyw arbedion ychwanegol o ran rhagnodi neu

¹Fair Society, Healthy Lives; Adolygiad Marmot, 2010 | ²CDL 'State of UK Public Parks', 2016 | ³Trysorlys EM 'The Green Book: Central Government Guidance on Appraisal and Evaluation', 2018 | ⁴Mae CGE yn gyfuniad o werthoedd defnyddio a pheidio â defnyddio yn seiliedig ar Barodrwydd i Dalu cyfartalog unigolyn.

CYFANSWM GWERTH ECONOMAIDD (DEFNYDDIO A PHEIDIO Â DEFNYDDIO) PARCIAU A MANNAU GWYRDD

Canfu ein prif arolwg (gan ddefnyddio sampl gynrychioliadol ledled y DU o dros 4,000 o drigolion sy'n oedolion y DU) ganlyniadau prisio o ddewis a nodwyd oedd yn gyson â rhai Trysorlys EM gan ddefnyddio sefyllfa ddamcaniaethol o newid yn y ddarpariaeth bresennol o ran parciau a mannau gwyrdd.

Roedd yr arolwg yn ddigon manwl i'n galluogi ni i wahaniaethu gwerthoedd Parodrwydd i Dalu cyfartalog rhwng grwpiau demograffig gwahanol. Gan ddefnyddio'r fethodoleg hon, roeddem yn gallu pennu, mewn termau economaidd, gwerth ar gyfer parciau a mannau gwyrdd sy'n cyfleu manteision uniongyrchol defnyddio parc neu fannau gwyrdd i'r unigolyn a'r manteision o beidio â'u defnyddio (a geir yn sgil bodolaeth a chadwraeth parciau a mannau gwyrdd waeth beth fo'u defnydd).

Er bod pobl sy'n ymweld â'u parc yn llai aml nag unwaith y mis yn dal i werthfawrogi bod parciau a mannau gwyrdd yn bodoli, mae'r rheini sy'n eu defnyddio'n aml⁵ yn mynegi gwerthoedd Parodrwydd i Dalu sylweddol uwch ar gyfer parciau a mannau gwyrdd (67% yn uwch na defnyddwyr llai aml a'r rheini nad ydynt yn eu defnyddio byth)⁶ Hefyd, datgelodd dadansoddiad pellach o'r data wahaniaethau sylweddol mewn gwerthoedd yn dibynnu ar amrywiaeth o elfennau gan gynnwys lleoliad, maint y parc, incwm ac ethnigrwydd. Pan fydd pwyso a mesur lles ar gyfer incwm⁷ yn cael ei gymhwysu, mae'r elfen Parodrwydd i Dalu ar gyfartaledd ar gyfer parciau a mannau gwyrdd yn cynyddu'n sylweddol ymysg Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) a grwpiau economaidd-gymdeithasol is. Er mai Llyfr Gwyrdd Trysorlys Ei Mawrhydi sy'n cael ei ystyried fel yr arfer gorau, yr astudiaeth hon yw'r gyntaf i ddefnyddio methodoleg pwyso a mesur lles gyda pharciau cyhoeddus a mannau gwyrdd yn y DU.

- Mae gwerth Parodrwydd i Dalu parciau a mannau gwyrdd yn dyblu a mwy ymysg grwpiau economaidd-gymdeithasol is wrth bwysu a mesur lles, **gan gynyddu o £2.00 i £4.32 y mis.**
- Mae gwerth Parodrwydd i Dalu parciau a mannau gwyrdd i gymunedau BAME hefyd yn cynyddu'n sylweddol wrth bwysu a mesur lles, **o £3.05 i £5.84 y mis.**
- Mae Parodrwydd i Dalu am barciau a mannau gwyrdd y rheini sy'n byw mewn trefi a dinasoedd yn uwch na gwerth cyfartalog y DU, sef **£2.89 y mis**, ac mae'r gwerth hwn yn cynyddu i **£3.93** ar ôl pwyso a mesur lles.

CYMHELLION AR GYFER DEFNYDDIO PARCIAU A MANNAU GWYRDD

Er bod yna wahanol gymhellion dros ddefnyddio parciau a mannau gwyrdd ar draws grwpiau defnyddwyr gwahanol, mae ein harolwg yn dangos cymhellion cymdeithasol clir ar gyfer defnyddio'r ardaloedd hyn ym mhob sefyllfa.

Mae parciau a mannau gwyrdd yn fannau democrataidd hanfodol lle mae pobl yn dod at ei gilydd ac yn rhyngweithio a gallant chwarae rhan bwysig yn y gwaith o hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol ac integreiddio, er enghraifft:

- **Mae nifer sylweddol o drigolion trefol yn cael eu cymell i ddefnyddio parciau a mannau gwyrdd fel rhywle cartrefol i gymdeithasu â ffrindiau, ymlacio a chael picnic.**
- **Mae pobl sy'n byw yng nghefn gwlad yn ymweld â pharciau a mannau gwyrdd at ddibenion chwaraeon tîm neu weithgareddau plant yn bennaf, yn hytrach na gweithgareddau unigol.**
- **Mae cyfran sylweddol uwch o ddefnyddwyr parciau a mannau gwyrdd yn ein sampl yn rhan o deulu (mae ganddynt blant dibynnol) o'i gymharu â'r rheini nad ydynt yn eu defnyddio.**
- **Roedd ymatebwyr BAME ddwywaith yn fwy tebygol nag ymatebwyr gwyn i ddefnyddio parciau a mannau gwyrdd ar gyfer chwaraeon tîm ac unigol ac i grwrdd â ffrindiau.**

GWERTH PARCIAU A MANNAU GWYRDD O RAN LLES

Mae Gwerth o ran Lles yn seiliedig ar ddulliau mesur boddhad bywyd,⁸ gan gynnwys manteision iechyd corfforol a meddyliol sy'n deillio o ddefnyddio parc. Gan ddefnyddio'r un sampl gynrychioliadol o'r Deyrnas Unedig, fe wnaethom ganfod fod iechyd a lles cyffredinol yn sylweddol uwch ymysg y rheini sy'n defnyddio parciau a mannau gwyrdd yn aml⁵ o'i gymharu â'r rheini nad ydynt yn eu defnyddio.

- **Byddai unigolyn angen iawndal o £974 y flwyddyn i ddisodli'r boddhad bywyd y byddai wedi'i gael yn sgil defnyddio ei barc neu fan gwyrdd lleol (fwy nag unwaith y mis).**
- **Mae £974 yn cyfateb i tua 9 diwrnod o gyflog ar enillion cyfartalog y DU (£27,600).**
- **Wedi'i gyfuno ar draws y DU, mae gwerth tua £34.2 biliwn o fanteision lles yn cael eu sicrhau bob blwyddyn wrth ddefnyddio parciau a mannau gwyrdd yn aml.**

⁵ Unigolyn sy'n defnyddio ei barc neu fan gwyrdd lleol unwaith y mis neu fwy ar gyfartaledd | ⁶ Sefyllfa prisio 1: Talu tanysgriadiad misol i sefydliad dielw annibynnol a sefydlwyd i gynnal a chadw pob parc a man gwyrdd yn ardal yr awdurdod lleol | ⁷ Mae pwyso a mesur lles ar gyfer incwm yn broses lle mae gwerth pob £1 y mae unigolyn yn fodlon ei dalu yn gyfartal ag incwm sy'n ystyried defnyddioldeb ymylol incwm - mae £1 yn cael ei wario gan rywun sy'n ennill llai â gwerth uwch ac i'r gwrthwyneb £1 yn cael ei wario gan rywun sy'n ennill mwy â llai o werth sy'n effeithio ar eu gallu i dalu (cyfyngiad cyllideb) pan ofynnwyd y cwestiwn prisio | ⁸ Mae mesurau Swyddfa'r Ystadegau Gwladol (bodlonrwydd bywyd, hapusrwydd, ymdeimlad o werth chwell) yn fesurau lles goddrychol y mae modd eu gwerthuso ac sy'n ymgorffori pob agwedd ar ansawdd bywyd unigolyn.

ARBEDION COST Y TRYSORLYS YN SGIL PARCIAU A MANNAU GWYRDD

Yn olaf, rydym yn cyflwyno arbedion cost rhannol i'r GIG trwy lai o ymweliadau â meddygon teulu sy'n gysylltiedig â defnyddio parciau lleol a mannau gwyrdd yn aml.

- ▶ **Amcangyfrifir bod parciau a mannau gwyrdd yn arbed tua £111 miliwn y flwyddyn i'r GIG yn seiliedig ar ostyngiad mewn ymweliadau â meddygon teulu (mewn geiriau eraill, nid ydym yn cyfrif am arbedion ychwanegol i'r GIG sy'n gysylltiedig â gostyngiadau o ran rhagnodi neu atgyfeiriadau).**

Gwyddom pe bai mwy o bobl yn defnyddio parciau a mannau gwyrdd yn rheolaidd, y byddai hyn yn gwella eu hiechyd a'u lles ac yna'n cynyddu lefel yr arbedion i'r Trysorlys.

AILBRISIO PARCIAU A MANNAU GWYRDD LLEOL

Mae'r adroddiad hwn yn dangos bod gwerth parciau a mannau gwyrdd yn sylweddol, yn seiliedig ar ddwy fethodoleg cysondeb lles Trysorlys EM. Er na ellir trosi'r gwerthoedd a welwyd yn yr astudiaeth hon yn uniongyrchol i fanteision y mae modd eu cyfnewid am arian, fe'u cynhaliwyd gan lynu'n gwaeth wrth ganllawiau Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM i gynrychioli gwerth parciau a mannau gwyrdd i'r boblogaeth leol, ac felly maent yn elfen hanfodol o'r achos busnes cyffredinol o blaid y mannau hanfodol hyn. Ar ben hynny, rydym yn dangos y cyfraniad y mae defnyddio parciau a mannau gwyrdd yn aml yn ei gael ar yr agenda iechyd ataliol.

Credwn fod gan y broses o ddefnyddio'r fethodoleg brisio hon yn ymarferol ar lefel leol y potensial i gael yr effaith fwyaf arwyddocaol o ran cynllunio, gwarchod ac ariannu parciau a mannau gwyrdd yn y dyfodol.

⁹www.publications.parliament.uk/pa/cm201617/cmselect/cmcomloc/45/45.pdf

AMDANOM NI

Mae Fields in Trust yn hyrwyddo ein parciau a'n mannau gwyrdd trwy eu gwarchod i bobl eu mwynhau am byth. Oherwydd ar ôl eu colli, cânt eu colli am byth.

Mae parciau a mannau gwyrdd yn y DU dan fygythiad ac mae'n rhaid i bawb ohonom eu hatal rhag dirywio a diflannu. Credwn y dylai pawb, waeth pwy ydyn nhw a lle maen nhw'n byw, gael yr hawl i fwynhau a chael budd o barciau a mannau gwyrdd lleol. Mae prawf bod parciau a mannau gwyrdd yn helpu pobl i fod yn iach yn gorfforol ac yn feddyliol; lleoedd y gallwn ni i gyd symud, cael awyr iach, rhedeg a chwarae ynddynt. Maent yn adnodd pwysig i annog cydlyniant cymdeithasol, mynd i'r afael ag unigrwydd ac adeiladu ysbryd cymunedol.

Ein nod nawr yw datblygu'r ymchwil hwn i Fodel Prisio Lefel Leol trwy gymhwyso canfyddiadau a gwerthoedd ymchwil cynradd i barciau unigol a mannau gwyrdd a'u demograffeg gyfagos.

Bydd hyn yn cyfrannu rhywfaint at gyflawni'r argymhelliad yn ymateb y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol i Ymchwiliad y Pwyllgor Dethol i Barciau a Mannau Gwyrdd i greu "model cadarn a throsglwyddadwy i alluogi awdurdodau lleol i asesu gwerth parciau a mannau gwyrdd."⁹

GOBLYGIADAU POLISI AR GYFER PARCIAU A MANNAU GWYRDD

Mae'n glir bod parciau a mannau gwyrdd yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr iawn ac maent yn darparu nifer o fanteision mesuradwy i'w poblogaeth leol. Mae modd gweld y data newydd hwn ar Gyfanswm Gwerth Economaidd (defnyddio a pheidio â defnyddio) parciau a mannau gwyrdd ar gyfer y boblogaeth leol gyfan, sy'n galluogi awdurdodau lleol am y tro cyntaf i gyflwyno achos busnes cadarn dan arweiniad tystiolaeth o werth economaidd a lles parciau a mannau gwyrdd i gymunedau lleol.

Bydd yr ymchwil hwn yn galluogi dull strategol o ran darparu parciau a mannau gwyrdd trwy nodi ardaloedd lle bydd buddsoddiad yn cael yr effaith fwyaf ar unigolion. Mae'n cyflwyno dadl newydd a chymhellol, mewn hinsawdd economaidd anodd, y dylid rhoi blaenoriaeth i ddarparu parciau a mannau gwyrdd mewn ardaloedd a chanddynt grwpiau economaidd-gymdeithasol is a chynrychiolaeth uwch o gymunedau BAME gan fod manteision parciau a mannau gwyrdd i'r grwpiau hyn yn anghyfartal o uchel.

Mae'r adroddiad llawn, sy'n nodi'n fanwl y fethodoleg a'r canfyddiadau, ar gael i lawrlwytho am ddim o wefan Fields in Trust www.fieldsintrust.org

Mae Fields in Trust yn elusen annibynnol gyda mwy na 90 mlynedd o brofiad yn gwarchod parciau a mannau gwyrdd. Rydym yn gweithio gyda thirfeddianwyr, grwpiau cymunedol a llunwyr polisi i hyrwyddo gwerth ein parciau a'n mannau gwyrdd er mwyn sicrhau gwell gwarchodaeth ar gyfer eu dyfodol ar lefel leol a chenedlaethol.



Fields in Trust Cymru

Canolfan Cenedlaethol Chwaraeon Cymru, Gerddi Sophia, Caerdydd
www.fieldsintrust.org

